



Amcan Llesiant 12

Amgylchedd Iach a Diogel - Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol

Cynllun gweithredu carbon sero-net cyntaf Cymru

Ym mis Chwefror 2020, Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi cynllun gweithredu newid yn yr hinsawdd, sy'n nodi sut y byddwn yn gweithio tuag at fod yn garbon sero-net yn ystod y 10 mlynedd nesaf. Ni oedd un o'r cynghorau cyntaf yn y DU i ddatgan argyfwng hinsawdd, gan addo bod yn garbon sero-net erbyn 2030 - 20 mlynedd cyn targedau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.


Ymhlith y camau gweithredu eraill y mae datblygu ffyrdd newydd o leihau carbon yn adeiladau'r Cyngor, prynu fflyd sy'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon, cydweithio â chyrff cyhoeddus eraill i sicrhau newid ehangach, edrych ar gyfleoedd i blannu coed a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor.


Pam mae'n bwysig

- Mae'r *Amgylchedd Naturiol* yn elfen greiddiol o ddatblygu cynaliadwy. Mae Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ymestyn y ddyletswydd sydd ar gyrff cyhoeddus *i gynnal a gwella bioamrywiaeth a chynyddu cryfder ecosystemau*.
- Mae *amgylchedd naturiol bioamrywiol*, gydag ecosystemau iach, yn helpu gwynwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol. Amgylchedd naturiol Sir Gaerfyrddin yw'r adnodd naturiol y mae rhan helaeth o'n heconomi wedi ei seilio arni – twristiaeth, ffermio, coedwigaeth, ac ynni adnewyddadwy. Mae'n ffactor o bwys sy'n denu pobl, ifanc a hŷn, i fyw, gweithio ac ymweld â'n sir, gan ddod â buddsoddiad o'r tu allan gyda hwy.
- Mae *perthynas gref rhwng llesiant pobl a'r amgylchedd o'u hamgylch*, o ddarparu cyfleoedd hamdden, i ymdeimlad cadarnhaol seicolegol, buddion iechyd a chysylltiad â threftadaeth a diwylliant.

Mesurau Llwyddiant




Cynhyrchwyd **997,480 kWh** o ynni adnewyddadwy gennym yn ystod 2019/20 (wedi cynyddu o 979,071 kWh yn y flwyddyn flaenorol)


Ein cyfradd ailgylchu yw **64.66%** (Mae hwn yn gynydd ar ffigur y flwyddyn flaenorol sef 58.95%).



Egluro'r Canlyniadau

- **Ailgylchu** wedi cynyddu ychydig yn 2019/20 i 64.66% o 58.95% y flwyddyn flaenorol. Felly rydym wedi cyrraedd targed statudol Llywodraeth Cymru o 64% erbyn 31 Mawrth 2020, gan osgoi unrhyw gosbau ariannol. Gwnaethom gynnal rhaglen o ddrws i ddrws er mwyn cynghori ac annog trigolion i fod yn rhan o'n cynlluniau ailgylchu. *Diolch i breswylwyr mae cynnydd sylweddol wedi bod mewn ailgylchu.*

Cynnydd a wnaed

- Rydym wedi parhau i gyflawni prosiect Britheg y Gors Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau'r *Mynydd Mawr*. Mae'r prosiect bellach yn rheoli 25 o safleoedd sy'n darparu 41.05 hectar o dir mewn cynefin sy'n addas ar gyfer glöynnod byw britheg y gors
- Roeddem wedi parhau i ymgysylltu â'r cyhoedd a'u hannog i gefnogi'r cyngor ymhellach i wella ei berfformiad ailgylchu. Cynhaliwyd rhaglen gynhwysfawr i ymgysylltu â chartrefi ym mis Hydref, a oedd yn cyd-fynd â newidiadau i'r polisi casglu gwastraff gweddilliol a darparu bagiau blychau gwastraff bwyd.
- Rydym wedi cynhyrchu a chyhoeddi ein Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd sy'n nodi, yn rheoli, ac yn lleihau perygl llifogydd yn ein cymunedau.
- Rydym wedi parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i dreialu trefniadau rheoli sbwriel ar draws Llanelli drwy gyflwyno grwpiau Swyddogion Ansawdd Amgylcheddol Lleol, grŵp rhanddeiliaid Cymoni eich Cymuned, gorchmynion diogelu'r cyhoedd a gweithrediadau gorfodi ar y cyd drwy weithio gydag arolygywr heddlu lleol.

Gwybodaeth i ddilyn ar ddefnydd o ynni yn 2019/20

Rydym yn aros am:

- Data defnydd ynni 2019/20 gan ein cyflenwyr ac yna bydd angen gwirio'r ffigurau.
- Canllawiau riportio gan Lywodraeth Cymru i gymhwyso methodolegau rhagnodedig.

Rydym yn gobeithio cynnwys data os daw i law erbyn i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi'n derfynol erbyn 31 Hydref 2020.

Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan yn Sir Gaerfyrddin



26 o leoliadau yn Llanelli, Porth Tywyn, Rhydaman, Caerfyrddin, Cwm Gwendraeth a Llandeilo yw'r rhai diweddaraf i elwa ar bwyntiau gwefru cerbydau trydan.

Y ffordd rydym yn gweithio


Swydd Ecolegydd Bwrpasol

Rydym wedi penodi Ecolegydd i sicrhau ein bod yn cyflawni ein Dyletswydd Bioamrywiaeth fel y nodwyd yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae'r Ecolegydd yn gweithio ar ddylunio peirianeg ac ar y safle gyda chontractwyr sy'n darparu prosiectau o gynlluniau bach megis meysydd parcio a llwybrau troed, i gynlluniau mawr megis Safle Strategol Dwyrain Cross Hands.

Mae hyn yn cynnwys darparu a sicrhau trwyddedau rhywogaethau a warchodir a chynhyrchu gwaith ecolegol. Rhoi cyngor i'r Gwasanaethau Eiddo (e.e. cyngor ar ystlumod) ynghylch yr effaith ecolegol ar Amddiffyn rhag Llifogydd a Diogelu'r Arfordir

Mae'r swydd hon wedi peri manteision amlwg o ran cyflawni Cam 1 Ffordd Gyswllt Cross Hands a'r gwaith o gynllunio a darparu'r ail gam.



Llifogydd

Cynhaliodd ein Tîm Gweithredol waith glanhau mewn cymunedau a busnesau yr effeithiwyd arnynt i ddelio â chanlyniadau **Storm Dennis**.

Bu criwiau yn gweithio'n galed i glirio malurion a adawyd gan y llifogydd, gyda chontractwyr arbenigol yn dod i mewn i helpu mewn rhai ardaloedd. Cafodd asesiad llawn o'r difrod a achoswyd gan y storm ei gynnal ar yr holl arwynebau ffordd, coed a phontydd yr effeithiwyd arnynt.

Sefydlwyd *Cronfa Gymorth* ar gyfer trigolion a busnesau yr effeithiwyd arnynt gan y storm.



Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd: **Y Cyngorydd Philip Hughes**
Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd: **Y Cyngorydd Hazel Evans**